

Dewch i Draffod Gwaith Ieuenctid

Cyfle i bobl ifanc Cymru ddweud eu dweud am waith ieuenctid gyda Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro newydd Cymru.

Keith Towler ydw i a fi yw Cadeirydd Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro newydd Cymru.


Rôl Bwrdd Gwaith Ieuenctid Cymru yw cynghori Llywodraeth Cymru ar y ffordd y gall gwasanaethau gwaith ieuenctid ledled Cymru weithio ar gyfer pob unigolyn ifanc.

Mae'n bwysig iawn i mi a'r Bwrdd bod gan bobl ifanc ran ganolog yn y broses o helpu i lywio'r ffordd y mae gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru yn gweithredu. I wneud hynny, rydw i am gychwyn trafodaeth â chi fel y gall y Bwrdd glywed eich barn.

Rydyn ni wedi llunio rhai cwestiynau cychwynnol i fwrw'r draffodaeth yn ei blaen. Gobeithio y byddwch am gymryd rhan felly rydw i wedi gofyn i weithwyr ieuenctid ledled Cymru helpu i roi cyfle i bobl ifanc gymryd rhan a dweud beth sy'n bwysig. Bydd y gweithwyr ieuenctid yn cofnodi popeth ac yn anfon eich sylwadau ataf a'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid.

Rydw i am eich sicrhau y byddaf yn darllen popeth sy'n cael ei anfon ataf yn ofalus iawn a byddaf yn cysylltu â chi ar y camau nesaf. Mae hyn yn nodi cychwyn trafodaeth barhaus â chi ...felly da chi, **Dewch i Draffod Gwaith Ieuenctid!**

Diolch o galon,



Keith Towler
Cadeirydd – Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro Cymru